

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Lun Ebrill 9fed 2018 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Paul Weston, Cynghorydd Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc).
3. **Cod Ymddygiad** – Neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Mawrth-** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gerallt Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. BDO – anfoneb 2015-16 cynigiodd Paul Weston gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r anfoneb o **£302.25** gyda siec rhif **100317**.
 - 5.2. Cyflymdra traffig heibio'r ysgol – dim wedi newid o safbwynt Conwy.
 - 5.3. Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data – y mater ddim yn glir beth sydd angen ei wneud.
 - 5.4. Cartrefi Conwy – byngalo gwag – dim ymateb gan Gonwy.
 - 5.5. Meddygfa Betws y Coed – dim ymateb ganddynt.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. Pwyllgor Apêl Pentrefoelas – llythyr yn diolch am y cyfraniad
 - 6.2. Gwahoddiad i Lansio Gwobr Pentrefi Conwy 2018 – y Cadeirydd am drïo mynd.
 - 6.3. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – penderfynwyd anfon llythyr yn gwrthwynebu'r newid ffiniau.
 - 6.4. Chwarae Allan – wedi derbyn siec o £500.00 i gynnal 2 ddiwrnod o chwarae i'r plant yn ystod gwyliau'r haf.
 - 6.5. CBSC – Pwyllgor Safonau – bydd aelod annibynnol yn ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn gweld sut mae'r cyfarfodydd yn cael ei cynnal.
 - 6.6. Un Llais Cymru – Paratoi'r Gyllideb- yn dilyn cyhoeddi adroddiad Blynnyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2018/19 mae'n ofynnol ar gynghorau cymuned a thref i ystyried cynnwys swm yn eu cyllideb ar gyfer cost debygol talu lwfansau i gynghorwyr.
 - 6.7. Swyddfa Archwilio Cymru – anfonwyd copi o'r neges gan Deryck Evans i'r Cynghorwyr.
7. **Talu Anfonebau:**
 - 7.1. Aelodaeth Un Llais Cymru – cynigiodd Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio talu'r aelodaeth o **£46.00** gyda siec rhif **100319**.
 - 7.2. Talu costau'r clerck am 4 mis o Ragfyr i Fawrth hefyd cadarnhau cyflog o £150.00 y mis – cynigiodd Gerallt Jones gyda Paul Weston yn eilio talu **£154.60** gyda siec rhif **100318**.
8. **Cais Cynllunio:**

Cyfeirnod	44930
Ymgeisydd	Mr a Mrs W a T Dunn
Cynllun	Defnyddio glampio – lleoli 1 Cwt Bugail a 3 Chaban
Safle	Llwyn Onn, Rhydlydan, Pentrefoelas

Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau ar y Cais.
9. **Monitro'r Gyllideb:**

Cynigiodd Edmund Rees gydag Paul Weston yn eilio a phawb yn gytûn fod popeth mewn trefn.
10. **Mantolen Ariannol ar gyfer 2017-18:**
 - i) Edrychwyd dros y Fantolen a'i chael yn gywir ac arwyddwyd gan y Cadeirydd.
 - ii) Cydnabod cyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon a chadarnhau.
11. **Mabwysiadu'r Saith Maes Allweddol:**

Gan nad oedd digon o Gynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfod methwyd eto'r mis yma edrych dros y Saith Maes Allweddol.

12. **Sgip Gymunedol** wedi archebu ar gyfer dydd Sadwrn Mehefin 9fed ac nid 16eg fel y dywedwyd eisoes.
13. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**
Nid oedd ganddo ddim i ychwaneg i'r pwyntiau a drafodwyd yn yr agenda.
14. **Unrhyw fater arall:**
Dim.
15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 14eg 2018 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____ ***E Rees*** _____
Cadeirydd

Dyddiad _____ **14.05.2018**

